# Polisi Diogelu Corfforaethol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

This document is also available in English

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymeradwywyd gan** | **Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol** | | | |
| **Dyddiad** | **12/09/2025** | **Cofnod Rhif** | | |

| **Fersiwn** | **Disgrifiad o'r Rheswm dros Newid** | **Awdur** | **Awdurdodiad** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|---|---|---|
| 01 | Cyhoeddiad Gwreiddiol | DL | JW | 18/6/14 |
| 02 | Adolygwyd | DL | JW | 3/6/2015 |
| 03 | Adolygwyd | DL | JW | 23/2/16 |
| 04 | Adolygwyd | DL | JW | 27/4/16 |
| 05 | Adolygwyd | DL | JW | 2/6/16 |
| 06 | Adolygwyd | DL | JW | 03/04/17 |
| 07 | Diweddarwyd | SG/RL | JW | 06/11/18 |
| 08 | Diweddarwyd (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) | SG | JW | 22/06/20 |
| 09 | Adolygwyd | SG/RL | JW | 11/11/22 |
| 10 | Diweddarwyd | SG / RL | JW | 05/09/23 |
| 11 | Adolygwyd | SG / RL | JW | 12/09/25 |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Pwrpas

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno Polisi a Chanllawiau'r Cyngor ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion.

Mae amcanion y Polisi Diogelu a'r Canllawiau fel a ganlyn:

- Pwysleisio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n cyflawni ei ymrwymiadau cyfreithiol ym maes diogelu Plant ac Oedolion;

- Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, Cynghorwyr, gweithwyr a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor fod trefniadau clir mewn grym i ddiogelu ac amddiffyn Plant ac Oedolion;

- Fod gan staff y Cyngor a Chynghorwyr ganllawiau clir ar gyfer pan all Plentyn neu Oedolyn fod mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob plentyn (dan 18 oed) ac i oedolion mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod, ni waeth beth eu rhyw, eu hoedran, eu hethnigrwydd, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol na'u cefndir crefyddol neu ddiwylliannol.

Oherwydd natur y sefydliad, mae'n anochel y bydd y Cyngor mewn cyswllt â Phlant ac Oedolion i raddau amrywiol ac felly, ein polisi yw bod canllawiau clir wedi eu sefydlu er mwyn diogelu a hyrwyddo eu lles yn ogystal ag er mwyn amddiffyn ein gweithwyr ac Oedolion cyfrifol eraill rhag cyhuddiadau posibl o gam-drin.

## Cyfrifoldebau

Mae gan bob Cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaeth dan gontract gyfrifoldeb i gadw at y gweithdrefnau a'r canllawiau a nodir yn y polisi hwn

**Talfyriadau**

| | |
|---|---|
| CBSC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| AP | Amddiffyn Plant |
| GDG | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| VAWDASV | Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| DGCLl | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:**

Mae'n rhaid gweithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 i sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail: Hil ac Ethnigrwydd; Anabledd; Oedran; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol; Crefydd a Chredoau; y Gymraeg neu Hawliau Dynol; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Ailbennu Rhywedd a Phriodas a Phartneriaeth Sifil.

**Dogfennau Perthnasol:**

(Gweler Atodiad 5)

## Tabl Cynnwys


| Adain | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0. | Cyflwyniad | 4. |
| 2.0. | Amcanion | 8. |
| 3.0. | Canlyniadau | 9. |
| 4.0. | Rolau a Chyfrifoldebau | 9. |
| 5.0. | Prosesau Atgyweirio / Gweithdrefnau Diogelu Cymru | 14. |
| 6.0. | Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol | 17. |
| 7.0. | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 18. |
| 8.0. | Adrodd, Monitro ac Adolygu | 18. |
| Atodiad 1 | Y Broses Atgyweirio | 20. |
| Atodiad 2 | Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio Diogel | 22. |
| Atodiad 3 | Bwrdd Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion - Cylch Gorchwyl | 24. |
| Atodiad 4 | Mesur Effaith a Monitro | 26. |
| Atodiad 5 | Dogfennaeth Berthnasol | 27. |

## 1.0. Cyflwyniad

1.1. Un o flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

1.2. Fel Cyngor, rydym yn credu fod gan bob Plentyn ac Oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldebau i roi arweiniad pendant i staff, Cynghorwyr, partneriaid a'r bobl hynny yr ydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn.

1.3. Mae 'Diogelu' yn fusnes i bawb ym mhob gwasanaeth o fewn y Cyngor. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth Arweiniol ar gyfer ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â honiadau / pryderon y gallai Plant ac Oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles Plant ac Oedolion, beth bynnag yw swydd yr unigolyn dan sylw.

1.4. Mae "Diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn Plant ac Oedolion ac mae'n ymwneud â hyrwyddo:

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
- Diogelu rhag niwed ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Cyfrannu at gymdeithas;
- Lles economaidd a chymdeithasol.

1.5. Er y dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda Phlant ac Oedolion fod yn ymrwymedig i ddiogelu a hybu eu lles, mae gan nifer o sefydliadau rolau neu ddyletswyddau statudol:

- O dan Adran 28 Deddf Plant 2004, mae gan CBSC ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hybu lles Plant;

- O dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae gan CBSC ddyletswydd i sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i amddiffyn Oedolion ac i atal trosedd ac anhrefn wrth gyflawni ein swyddogaethau.

1.6. At ddibenion y polisi hwn, diffinnir Plentyn fel unrhyw un nad yw wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed eto. Nid yw'r ffaith bod Plentyn wedi cyrraedd 16 mlwydd oed, yn byw'n annibynnol neu mewn addysg bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, yn yr ysbyty neu yn y ddalfa mewn man diogel yn newid ei statws neu ei hawl o neu hi i wasanaethau neu amddiffyniad dan ddeddfwriaeth gyfredol.

1.7. Diffinnir Oedolyn fel unigolyn dros ddeunaw oed.

1.8. Mae Adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLl) yn cyflwyno cysyniad 'Oedolyn mewn Perygl' fel a ganlyn:

*(1) Mae 'Oedolyn mewn Perygl'...yn Oedolyn sy'n:*

*(a) Profi, neu mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod;*

*(b) Angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio); ac*

*(c)* *O ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg ohono.*

1.9. Mae Adran 128 DGCLl yn amlinellu dyletswydd statudol newydd i roi gwybod am 'Oedolion mewn Perygl':

*(1) Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol i amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl ac yn ymddangos i fod o fewn ardal yr awdurdod, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol o hynny.*

*(2) Os oes gan bartner perthnasol sail resymol i amau bod oedolyn mewn perygl ac yn ymddangos i fod o fewn ardal yr awdurdod lleol, heblaw un sy'n bartner perthnasol, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol am hynny.*

*(3) Os oes gan awdurdod lleol sail resymol i amau bod unigolyn o fewn ei ardal yn oedolyn mewn perygl, unrhyw bryd, ac yn byw neu'n bwriadu byw yn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod arall hwnnw.*

*(4) At ddiben yr adran hon, mae partner perthnasol awdurdod lleol yn berson sy'n bartner perthnasol yr awdurdod at ddibenion adran 162.*

1.10. Mae Adran 130 DGCLl yn amlinellu 'dyletswydd i adrodd am 'Blant mewn Perygl':

*(1) Os oes gan bartner perthnasol awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod plentyn yn blentyn sy'n wynebu risg, a'i bod yn ymddangos bod y plentyn hwnnw o fewn ardal yr awdurdod, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol am y ffaith honno.*

*(2) Os yw'n ymddangos bod y plentyn, y mae gan y partner perthnasol sail resymol dros gredu bod y plentyn hwnnw yn blentyn sy'n wynebu risg, o fewn ardal awdurdod lleol ac eithrio un y mae'n bartner perthnasol iddo, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol arall hwnnw.*

*(3) Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod plentyn o fewn ei ardal ar unrhyw adeg yn blentyn sy'n wynebu risg a'i fod yn byw neu'n bwriadu byw o fewn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod arall hwnnw.*

*(4) Yn yr adran hon, mae "plentyn mewn perygl" yn blentyn -*

*(a) sy'n profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; ac*

*(b) ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny neu beidio).*

*(5) At ddibenion yr adran hon, partner perthnasol awdurdod lleol yw-*

*(a) unigolyn sy'n bartner perthnasol awdurdod lleol at ddibenion adran 162;*

*(b) tîm troseddu ieuenctid ar gyfer unrhyw ran sy'n dod o fewn ardal yr awdurdod.*

*(6) Am ddarpariaethau perthnasol i ddyletswydd awdurdod lleol i ymchwilio i blant mewn perygl, gweler adran 47 Deddf Plant 1989.*

1.11. Nod [Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015] yw gwella trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhyw, cam-drin a thrais rhywiol. Mae amddiffyn dioddefwyr a chefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio yn cael ei amlygu gan ddyletswydd 'Holi a Gweithredu' staff gwasanaeth cyhoeddus i holi dioddefwyr posib am y posibilrwydd eu bod yn profi trais yn erbyn merched a cham-drin domestig neu drais rhywiol a gweithredu i leihau dioddefaint a niwed.

1.12. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i ganfod unigolion diamddiffyn a theuluoedd mewn perygl o radicaleiddio rhag bob math o eithafiaeth. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'i ganllawiau, yn nodi y gall plant ac oedolion fod dan fygythiad ideolegau sy'n eu rhoi nhw, eu teuluoedd a'r cyhoedd mewn perygl petaent yn cael eu tynnu i weithredu ar gredoau eithafol. Mae nodi unigolion mewn perygl a phenderfynu pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i'w cefnogi yn cael ei ategu gan y broses ymyrraeth aml-asiantaeth 'Sianel' sy'n atal cyswllt parhaus.

1.13. Mae caethwasiaeth fodern yn cwmpasu caethwasiaeth, camfanteisio rhywiol, masnachu mewn pobl, llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig. Mae masnachwyr a meistri caethwasiaeth yn defnyddio pa bynnag rymoedd sydd ganddynt wrth law i reoli, twyllo a gorfodi unigolion mewn i fywyd o gam-drin, caethwasanaeth a thriniaeth greulon. Ym mis Mawrth 2015, cyfunodd a symleiddiodd y Mesur Caethwasiaeth Fodern droseddau sy'n bodoli eisoes i un Ddeddf gan sicrhau y gall troseddwyr dderbyn cosbau llym priodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno grymoedd newydd i'r llysoedd osod cyfyngiadau ar unigolion i amddiffyn pobl rhag y niwed a achosir gan gaethwasiaeth fodern.

1.14. Mae [Deddf Cam-drin Domestig 2021] yn cyflwyno'r newidiadau canlynol:

- Creu diffiniad statudol o gam-drin domestig, gan bwysleisio nad yw cam-drin domestig yn drais corfforol yn unig, ond mae hefyd yn gallu cynnwys cam-drin emosiynol, rheoli drwy orfodi ac economaidd.
- Sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig mewn cyfraith a gosod swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd.
- Darparu ar gyfer Hysbysiad Gwarchod Rhag Cam-drin Domestig a Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig.
- Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr i ddarparu llety yn seiliedig ar gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant mewn lloches a llety diogel arall
- Atal cyflawnwr camdriniaeth rhag croesholi eu dioddefwyr yn bersonol yn y llysoedd teulu a sifil yng Nghymru a Lloegr.
- Gosod rhagdybiaeth statudol bod dioddefwyr cam-drin domestig yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig yn y llysoedd teulu, sifil a throseddol.
- Egluro'r amgylchiadau ble gall llys wneud gorchymyn eithrio o dan adran 91(14) o'r Ddeddf Plant 1989 i atal achosion teulu a all achosi trawma pellach i ddioddefwyr.
- Ymestyn y drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu'n gymhellol i gynnwys cam-drin ar ôl gwahanu.
- Ymestyn y drosedd o ddatgelu lluniau a ffilmiau rhywiol preifat gyda bwriad i achosi gofid (a elwir hefyd yn drosedd "pornograffi dialgar") i gynnwys bygythiadau i ddatgelu deunydd o'r fath.
- Creu trosedd newydd ar gyfer tagu neu fygu unigolyn arall nad yw'n angheuol.
- Egluro drwy ailddatgan mewn cyfraith statud y cynigiad cyffredinol na fydd unigolyn o bosibl yn cydsynio i niwed difrifol, a drwy ymestyn, yn methu cydsynio eu marwolaeth eu hunain.
- Ymestyn awdurdodaeth alldiriogaethol llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i droseddau rhywiol a threisiol pellach.
- Darparu ar gyfer strategaeth cyflawnwyr cam-drin domestig statudol.
- Galluogi troseddwyr cam-drin domestig i fod yn destun profion polygraffau fel amod o'u trwydded ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa.

- Gosod y canllawiau sy'n cefnogi'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ('Cyfraith Clare') ar sail statudol.
- Gofalu bod gan holl ddioddefwyr digartrefedd cymwys cam-drin domestig 'angen blaenoriaethol' yn awtomatig ar gyfer cymorth digartrefedd.
- Sicrhau ble mae awdurdod lleol, am resymau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, yn sicrhau tenantiaeth ddiogel newydd i denant cymdeithasol oedd gyda neu sydd gyda thenantiaeth ddiogel am oes neu wedi'i sicrhau (heblaw am denantiaeth byrddaliad sicr) mae'n rhaid i hwn fod yn denantiaeth oes ddiogel.
- Atal meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn meddygfeydd rhag codi tâl ar ddioddefwr cam-drin domestig am lythyr i gefnogi cais am gymorth cyfreithiol.
- Darparu ar gyfer cod ymarfer statudol sy'n ymwneud â phrosesu data cam-drin domestig at ddibenion mewnfudo.

1.15. Mae cosb gorfforol o unrhyw fath bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2020, pasiodd y Senedd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf") 2020. Y prif nod oedd helpu i ddiogelu hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i holl blant yng Nghymru.

1.16. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020 a daeth i rym ar 21 Mawrth 2022. Nid oedd y gyfraith newydd yn creu trosedd newydd ond, yn hytrach, roedd yn cael gwared ag amddiffyniad cyfreithiol a oedd yn bodoli ers 160 o flynyddoedd ac yn cyfleu'r neges ei bod yn dderbyniol i blant gael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu unigolion ag awdurdod rhiant.

1.17. Dros y blynyddoedd roedd deddfwriaeth wedi cyfyngu'r amgylchiadau ble gellir defnyddio'r amddiffyniad ac yn cyfyngu'r lleoliadau ble gallai plant gael eu cosbi'n gorfforol. Roedd cosb gorfforol eisoes wedi'i wahardd mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maethu awdurdod lleol a lleoliadau gofal plant. Mae bellach yn anghyfreithlon yn y cartref ac mewn lleoliadau na reolir.

1.18. Mae cosb gorfforol yn cael ei diffinio fel unrhyw gurfa plentyn a gynhelir fel cosb. Er mai taro sydd fel arfer yn dod i'r meddwl, mae cosb gorfforol yn gallu bod mewn sawl ffurf gan gynnwys taro, slapio ac ysgwyd. Nid yw'r hyn oedd yn ymddangos yn iawn 30 mlynedd bellach yn iawn. Mae rhieni a gwarchodwyr plant bach yn llai tebyg o gefnogi cosb gorfforol.

1.19. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (UNCRC) yw'r sail ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru ar blant. Mae atal cosb gorfforol plant yn unol ag erthygl 19 yr UNCRC - yr hawl i ddiogelwch rhag pob math o drais. Mae Cymru wedi ymuno â dros 60 cenedl ar draws y byd sydd eisoes wedi gwahardd cosb gorfforol yn erbyn plentyn.

1.20. Mae Deddf Plant Cymru yn berthnasol i unrhyw un yng Nghymru sy'n gofalu am blant (o dan 18 oed) yn eu gofal. Gallai hyn fod ar gyfer:

- Rhiant, gwarchodwr cyfreithiol neu unigolyn â hawliau rhiant y plentyn.
- Unigolyn sydd eisoes â chyfrifoldeb dros y plentyn adeg y digwyddiad (er enghraifft modryb, ewythr, teidiau a neiniau a gwarchodwyr, oedolion sy'n cynnal clybiau neu grwpiau eraill i blant, gan gynnwys mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden ac au pair heb eu rheoleiddio).

1.21. Yn yr un modd â chyfreithiau eraill, bydd hefyd yn berthnasol i ymwelwyr yng Nghymru.

1.22. Mae cosb gorfforol wedi bod yn anghyfreithlon mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maethu awdurdod lleol a lleoliadau gofal plant ers tro. Yn dilyn y newid hwn yn y gyfraith, bydd pob cosb gorfforol plant yng Nghymru yn anghyfreithlon ym mhob lleoliad.

1.23. Mae yna wahaniaeth rhwng cosb gorfforol a'r rhyngweithio corfforol bob dydd sy'n digwydd rhwng rhieni a phlant. Mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod bod rhai ymyraethau corfforol a gynhelir gan rieni ar gyfer awdurdod rhiant mewn perthynas â phlant yn angenrheidiol ac yn gyfreithlon.

1.24. Mae oedolion yn defnyddio ymyrraeth gorfforol i gadw plant yn ddiogel rhag niwed, fel dal plentyn yn ôl rhag rhedeg i'r ffordd neu ddal plentyn yn gorfforol i'w hatal rhag anafu eu hunain neu eraill, neu i'w hatal rhag rhoi eu llaw yn y tân neu ar arwyneb poeth. Mae'r ymyraethau hyn i gyd yn ymwneud â chadw plentyn yn ddiogel. Fodd bynnag, os byddai rhiant yn gweld eu plentyn yn gwneud rhywbeth peryglus ac yn ymateb drwy eu cosbi'n gorfforol, ni fyddai hyn yn dderbyniol o dan y gyfraith.

1.25. Dylai'r amgylchiadau, y cyd-destun ehangach a bwriad y rhiant neu'r gofalwr arwain penderfyniad ar b'un a yw'r cam yn debyg o gael ei ystyried yn gosb gorfforol ac felly yn anghyfreithlon.

1.26. Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chefnogi gan gyngor i rieni a gofalwyr ar ddulliau amgen i annog ymddygiad cadarnhaol mewn plant gan gynnwys drwy'r Rhianta. Ymgyrch rhoi amser iddo.

1.27. Am fwy o wybodaeth gallwch weld Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. .

1.28 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

1.29 Proses adolygu sengl yw'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) sy'n ymgorffori'r holl adolygiadau yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau y gall teuluoedd yr effeithiwyd arnynt ddisgwyl proses adolygu gyflym a thrylwyr. Mae'r ADUS yn dileu'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn sawl adolygiad. Bydd hyn yn lleihau'r trawma ac yn galluogi ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd a gweithredu'n gynt.

1.30 Mae angen i'r meini prawf ar gyfer cynnal ADUS fodloni un o'r canlynol:

- Adolygiad Ymarfer Oedolion
- Adolygiad Ymarfer Plant
- Adolygiad Dynladdiad Domestig
- Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl
- Adolygiad Dynladdiad Arfau Ymosodol

1.31 Mae'r ADUS yn dod ag asiantaethau ac unigolion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad i mewn i amgylchedd dysgu diogel er mwyn:

- meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad a pham
- gwella dealltwriaeth o effaith gweithredoedd y sefydliadau
- ystyried a fyddai camau gweithredu gwahanol wedi gallu arwain at ganlyniadau gwahanol ar gyfer y plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- canfod unrhyw gyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol
- darparu cynllun gweithredu clir ar sut i wella darpariaeth gwasanaeth.

## 2.0. Amcanion

2.1. Fel Cyngor rydym yn credu ei fod yn hollol annerbyniol i Blentyn neu Oedolyn gael eu cam-drin neu eu niweidio mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr egwyddorion canlynol sy'n ffurfio sail i'r Polisi a'r Canllawiau:

- Mae gan bob Plentyn ac Oedolyn (beth bynnag fo'u cefndir, eu diwylliant, eu hoedran, eu hanabledd, eu rhyw, eu hethnigrwydd, eu cred) hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, cam-drin, bwlio na gwahaniaethu; mae gan bob Plentyn ac Oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, camfanteisio a cham-drin;

- Byddwn fel Cyngor yn rhoi lle canolog i les Plant ac Oedolion yn ein polisïau a'n gweithdrefnau;

- Fel Cyngor byddwn yn cydweithio'n agos gyda Phlant, eu Rhieni, Gofalwyr ac Oedolion, ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion;

- Parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion drwy wrando arnynt a lleihau unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt;

- Buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar a cheisio osgoi sefyllfaoedd lle gall cam-drin neu honiadau o gam-drin neu niwed ddigwydd.

## 3.0. Canlyniadau

3.1. Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu Plant ac Oedolion ac i'w hamddiffyn rhag cael eu cam-drin pan fyddant yn derbyn gwasanaethau a drefnir a ddarperir gan, neu ar ran y Cyngor.

3.2. Byddwn yn mesur eu heffaith yn rheolaidd er mwyn cyflawni'r canlyniadau lefel uchel canlynol:

- Mae dealltwriaeth glir ymhlith staff, Cynghorwyr a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor am y polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion;

- Mae gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisïau a'r Canllawiau a gyflwynir yma;

- Mae trefniadau cyfathrebu clir a hygyrch ar waith ar draws yr holl sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am swyddogion allweddol ymhob Gwasanaeth sy'n gyfrifol am faterion diogelu Plant a Phobl Ifanc;

- Mae'r canllawiau hyn yn gyson gyda'r gweithdrefnau sy'n weithredol ar sail Cymru gyfan a phrotocolau cysylltiedig ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion;

3.3. Bydd Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yn nodi pa aelodau o staff ddylai dderbyn hyfforddiant diogelu ac i ba lefel. Bydd hyfforddi Rheolwyr Diogelu Dynodedig ymhob gwasanaeth yn flaenoriaeth. Bod staff a Chynghorwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â'r canllawiau a bod hwn yn drefniant parhaus a pharhaol o fewn y sefydliad.

## 4.0. Rolau a Chyfrifoldebau

4.1. Mae gan bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth gyfrifoldeb i gadw at y gweithdrefnau a'r canllawiau a nodir yn y polisi hwn.

4.2. Drwy ddilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau cywir, mae'n bosibl sicrhau bod y camau priodol yn cael eu gweithredu er mwyn delio ag unrhyw honiad neu bryder, bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n diogelu Plant ac Oedolion a bod staff yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.

4.3. Mae gan bob aelod o staff, Cynghorydd, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaeth gyfrifoldeb ym maes diogelu. Mae'n bwysig iawn amlygu hyn.

4.4. Mae hyn yn golygu fod gan bob Gwasanaeth o fewn y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae a bod yn rhaid iddynt gymryd perchnogaeth lawn yn y maes diogelu. Mae'n dilyn bod angen sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau clir ar waith o fewn pob Gwasanaeth yn y Cyngor i sicrhau bod ymchwiliadau / pryderon y gall Plant ac Oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol yn cael sylw dyledus. Yn ogystal, mae angen i bob gwasanaeth ddeall ymhle mae materion yn ymwneud â diogelu yn debygol o godi yn eu gwasanaeth penodol nhw a sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar waith i reoli'r rhain yn dda.

4.5. Mae'r ddogfen hon yn dwyn y polisi a'r canllawiau corfforaethol ym maes diogelu Plant ac Oedolion ynghyd a bydd yn gweithredu fel fframwaith i weithdrefnau pob gwasanaeth o fewn y Cyngor.

4.6. <u>Tabl o Rolau a Chyfrifoldebau</u>

| Swydd | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Y Prif Weithredwr** | Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu Plant ac Oedolion effeithiol ar waith, a'u bod yn cael eu dilyn.<br><br>Maent hefyd yn gyfrifol am ddatblygiad llywodraethu corfforaethol effeithiol a bodloni pob gofyniad statudol. |
| **Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Mae cyfrifoldeb terfynol a diwahân dros faterion diogelu yn gorwedd gyda'r Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn Plant a Phobl ifanc, Oedolion a Phobl Hŷn Diamddiffyn, ac maent yn gyfrifol am adrodd, ar lefel corfforaethol, i Gynghorwyr ar eu heffeithiolrwydd.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am y canlynol:<br><br>○ Goruchwylio'r broses gweithredu, monitro a gwella gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn ar gyfer Plant ac Oedolion; |

| Swydd | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| | ○ Sicrhau bod trefniadau adrodd cadarn ar gyfer diogelu Plant ac Oedolion ar waith ac i adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Aelodau;<br><br>○ Sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu'n effeithiol;<br><br>○ Sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ganlyniad i Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a'u bod yn cael eu gweithredu fel sy'n briodol gan bob asiantaeth, gan gydnabod bod effeithiolrwydd trefniadau'n dibynnu ar ansawdd cyfraniad bob asiantaeth;<br><br>○ Codi'r proffil, cefnogi'r polisi a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion;<br><br>○ Sicrhau bod pob aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn deall ac yn gweithredu safonau uchel yn nhermau nodi risgiau ac arferion diogelu;<br><br>○ Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am faterion yn ymwneud â diogelu Plant ac Oedolion a sicrhau bod arferion gwaith cymdeithasol yn datblygu yng ngolau gwaith ymchwil priodol;<br><br>○ Codi safonau arferion gwaith cymdeithasol drwy oruchwyliaeth broffesiynol a chyfleoedd eraill i ddysgu ac adlewyrchu fel bod staff sy'n gweithio yn y maes diogelu yn cael cefnogaeth briodol;<br><br>○ Cyflwyno sylwadau yn rhinwedd ei rôl statudol, ar adroddiadau'r Cabinet yn ymdrin â'r maes diogelu.<br><br>Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion, y Cyfarwyddwr Statudol yw'r Uwch Swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol a diwahân dros hyn. |
| **Rheolwyr Diogelu Dynodedig Safeguarding Managers** | Bydd gofyn i bob Gwasanaeth o fewn y Cyngor enwebu "Rheolwr Diogelu Dynodedig ar gyfer mynd i'r afael â diogelu Plant ac Oedolion.<br><br>Mae'r Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am:<br><br>○ Weithredu fel ffynhonnell allweddol o gyngor a chymorth i staff eraill y Gwasanaeth mewn perthynas â phob mater diogelu;<br><br>○ Bod yn gyfarwydd â Pholisi a Chanllawiau Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion ynghyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Ebrill 2020) .<br><br>○ Sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol i ymdrin â phryderon o fewn y Gwasanaeth drwy gydweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni hyn; |

| Swydd | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| | ○ Sicrhau bod y broses o gydymffurfio gyda'r Polisi a'r Canllawiau hyn yn cael ei monitro drwy adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol;<br><br>○ Mynd ar hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Rheolwyr Diogelu Dynodedig".<br><br>**Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am ymddygiad cydweithiwr tuag at Blant neu Oedolyn gysylltu â'r Rheolwr Diogelu Dynodedig o fewn y Gwasanaeth ar unwaith.** |
| **Penaethiaid Gwasanaeth** | Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth – drwy eu Timau Rheoli – yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod pob gofyniad statudol, yn nhermau diogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion, yn derbyn sylw dyledus. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir a chynnal cofnodion digonol o hyfforddiant staff.<br><br>Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod eu staff yn derbyn gwiriad priodol drwy weithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanllawiau Recriwtio Diogel a bod eu staff yn cydymffurfio gyda'r Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion.<br><br>Mae'n rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sefydlu trefniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>Disgwylir iddynt gydlynu'r broses o baratoi Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yn eu Gwasanaeth. Disgwylir bod y Polisi yn cael ei baratoi er mwyn amlygu trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer ymateb i faterion a all godi yn y maes diogelu.<br><br>Bydd yn ofyniad ar gyfer pob Gwasanaeth yn y Cyngor i adrodd ar eu Polisïau a'u Canllawiau Diogelu i'r Bwrdd Corfforaethol dros Ddiogelu Plant ac Oedolion. |
| **Rheolwyr Atebol** | Mae pob Rheolwr Atebol yn gyfrifol am sicrhau bod y staff y maent yn gyfrifol drostynt yn derbyn yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen, yn gymesur â'u cyfrifoldebau. Dylai pob rheolwr sicrhau bod Diogelu yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd tîm. |
| **Pob Aelod o Staff a Gwirfoddolwyr (gan gynnwys Llywodraethwyr Ysgolion) Governors)** | Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn gyfrifol am ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles Plant ac Oedolion. Mae'n rhaid iddynt hefyd weithredu mewn ffordd sy'n eu diogelu yn erbyn honiadau ffug o gamdriniaeth cyn belled â phosibl ac yn unol â'r polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt dynnu sylw'r Rheolwr Dynodedig at faterion o bryder yn ymwneud â diogelwch Plant ac Oedolion o fewn eu Gwasanaeth.<br><br>Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr (gan gynnwys Llywodraethwyr Ysgolion) yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol. |

| Swydd | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Contractwyr, Is-gontractwyr, neu Sefydliadau Eraill a ariennir gan, neu ar ran Cyngor Conwy** | Mae contractwyr, isgontractwyr neu sefydliadau eraill sy'n cael eu hariannu gan neu ar ran y Cyngor yn gyfrifol am drefnu'r gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal â sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddio a chytundebol sy'n ymwneud â diogelu Plant ac Oedolion.<br><br>Mae angen i rai sefydliadau gynnal hunanasesiad blynyddol o drefniadau diogelu, ac i adrodd canlyniadau, fel rhan o drefniadau monitro contract. Mae disgwyl y bydd hyn yn berthnasol i fwy o sefydliadau dros amser. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i atgyweirio unrhyw faterion amddiffyn. |
| **Aelodau Etholedig** | Bydd Aelodau Etholedig yn cael yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â diogelu:<br><br>○ Y Deiliad Portffolio dros Blant, Teuluoedd a Diogelu fydd aelod sefydlog y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Bydd y Bwrdd hwn yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas ag arferion gwaith a gweithdrefnau pob Gwasanaeth yn y Cyngor, gan ddarparu sicrwydd bod y Gwasanaethau'n bodloni eu dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol. Yn ychwanegol at hyn, bydd y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rheoli perfformiad bob Gwasanaeth er mwyn dangos eu bod yn rhyddhau eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu Plant ac Oedolion.<br><br>○ Bydd gan Aelodau'r Bwrdd rôl bwysig mewn herio gwybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau'r broses rheoli perfformiad ar draws y gwasanaethau o safbwynt diogelu Plant ac Oedolion. Mae gan Aelodau'r Bwrdd ddyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau corfforaethol yn cael eu datblygu ar draws y sefydliad.<br><br>Bydd y Deiliad Portffolio dros Blant, Teuluoedd a Diogelu yn adrodd ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol i holl Aelodau'r Cabinet yn flynyddol. Bydd pob Aelod Cabinet yn derbyn sicrwydd gan yr Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu bod rhaglen waith glir ar waith a bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn yn y maes diogelu. Yn ychwanegol at hynny, mae'n rhaid adrodd bod trefniadau priodol ar waith i fonitro perfformiad pob Gwasanaeth o ran adolygu a gwerthuso polisïau. Mae monitro ac adolygu rheolaidd yn rhan annatod i sicrhau bod Diogelu 'Yn Berthnasol i Bawb'.<br><br>○ Bydd cyfle yn yr Adroddiad Blynyddol i Aelodau Arweiniol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd Diogelu Corfforaethol amlygu unrhyw rwystrau neu bryderon sydd ganddynt yn nhermau ymateb neu berfformiad unrhyw Wasanaeth o fewn y Cyngor.<br><br>○ Bydd unrhyw wersi o Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion yn cael eu nodi i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol. |

| Swydd | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| | Bydd Aelodau'r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â gwaith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn darparu cyfle i Aelodau graffu a herio Aelodau'r Bwrdd Corfforaethol. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol, eu cynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r prif negeseuon sy'n deillio o drefniadau rheoli perfformiad. Bydd arsylwadau'r Pwyllgor Craffu yn llywio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.<br><br>Mae'n ofynnol bod pob Cynghorydd yn mynd ar hyfforddiant ynglŷn â maes diogelu Plant ac Oedolion. Bydd cofrestr yn cael ei gadw o'r rheiny sy'n mynd a bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad sy'n cael ei gydlynu gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r Canllawiau hyn ymysg Cynghorwyr Conwy ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diogelu sy'n bodoli o fewn y Cyngor. |

## 5.0. Prosesau Adrodd / Gweithdrefnau Diogelu Cymru

5.1. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am ddiogelwch unigolyn, neu am ymddygiad cydweithiwr tuag at Blant neu Oedolyn gysylltu â'r Rheolwr Dynodedig o fewn y Gwasanaeth **ar unwaith.**

5.2. Os nad yw'r Rheolwr Diogelu Dynodedig ar gael, yna mae'n rhaid atgyfeirio'r mater at y Tîm Un Pwynt Mynediad - am bryderon yn ymwneud â Gwasanaethau Plant ac Oedolion - am bryderon yn ymwneud â phlentyn (nodir y manylion yn adran 5.7 isod). Mae'n hollbwysig **peidio** ag oedi.

5.3. Mae'n rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os oes plentyn neu oedolyn mewn perygl, neu fod amheuaeth o drosedd.

5.4. Dylid cysylltu â Thîm Dyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol os yw'r mater yn codi ar ôl 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar Benwythnosau a Gwyliau Banc.

5.5. <u>Oedolyn mewn Perygl – Llwybrau a math o Gam-drin</u>

**Llwybr Oedolion**

Mae'r Ddeddf, canllawiau statudol a rheoliadau yn egluro sut y dylech weithio gydag oedolion:

- Diffiniad o 'oedolyn mewn perygl'
- Dyletswydd newydd i bartneriaid perthnasol roi gwybod am oedolion mewn perygl
- Dyletswydd newydd i awdurdodau lleol wneud ymholiadau
- Mae Adran 47 Deddf Cymorth Gwladol 1948 wedi'i ddiddymu

**Camdriniaeth ac Esgeulustod**

- Corfforol
- Rhywiol
- Seicolegol

- Emosiynol
- Ariannol
- Esgeulustod

Digwydd mewn unrhyw leoliad

- Troseddau treisgar
- Troseddau rhywiol
- Troseddau'n ymwneud ag eiddo
- Troseddau casineb
- Camfanteisio

Meysydd ychwanegol

- Hunan-esgeulustod
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-drin sefydliadol
- Trais domestig
- Troseddau er anrhydedd

5.6. Plentyn mewn Perygl – Llwybrau a mathau o Gam-drin:

**Llwybr Plant**

Mae'r Ddeddf, canllawiau statudol a rheoliadau yn egluro sut y dylech weithio gyda phlant;

- Diffiniad newydd o 'blentyn mewn perygl'
- Dyletswydd newydd i bartneriaid perthnasol roi gwybod am blant mewn perygl
- Awdurdodau Lleol i wneud ymholiadau - cyswllt ag Adran 47 Deddf Plant 1989

**Cam-drin, Esgeulustod a Niwed**

- Ystyr 'camdriniaeth' a 'cham-drin' yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae esgeulustod yn golygu methu cwrdd ag anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol, sy'n debygol o amharu ar les unigolyn
- Mae niwed yn golygu cam-drin neu amharu ar (a) iechyd corfforol neu feddyliol, neu (b) ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol
- Mae 'niwed' yn golygu cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad.
- Mae 'datblygiad' yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol
- Mae 'iechyd' yn golygu iechyd corfforol neu feddyliol
- Mae 'camdriniaeth' yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol (Deddf Plant 1989 a38)
- Mae 'amhariad' yn cynnwys amhariad o ganlyniad i glywed neu weld camdriniaeth i unigolyn arall (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)

5.7. Manylion Cyswllt ar gyfer Adrodd:

- Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl
- Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl

5.8. Rheolwyr Diogelu Dynodedig Presennol:

| Adran | Cyswllt |
|---|---|
| Addysg | Scott Fordwhalley<br>Rachel Simmonds<br>Libby Duo |
| Adnoddau Dynol | Diana Burns |
| Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Jane Roberts |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) | Stephen Jenkins |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) | Helen Fenner |
| Gwasanaeth Tai Strategol | Katie Clubb |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | Ceri Williams |
| Archwilio a Chaffael | Victoria Melville |
| Gwasanaethau Hamdden | Caroline Jones |
| Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Helen Hobson |
| Gwasanaeth Llyfrgell | Sharon Morgan |
| Digwyddiadau Mawr | Judith Sharp |
| Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda | Helen Davies |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Richard Evans |
| Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | Debbie Anchors |
| Rheoli Ystadau ac Asedau | Richard Jones |
| Tîm Gweithlu a Datblygu Corfforaethol | Cheryl Roberts |

5.9 Gweithdrefnau Diogelu Cymru

- Lansiodd Llywodraeth Cymru'r Gweithdrefnau Diogelu newydd i Gymru ar 11 Tachwedd 2019.
- Maent yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) a Pholisi a Gweithdrefnau Dros Dro Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn rhag Cam-driniaeth (2013).
- Nid yw'r gweithdrefnau wedi eu dylunio i gael eu hargraffu, maent yn ddigidol yn unig. Byddant yn cael eu diweddaru bob 6 mis.
- Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn arwain arferion diogelu ar gyfer pawb a gyflogir yn y sectorau statudol, trydydd sector (gwirfoddol) a phreifat, iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, polisi, cyfiawnder a gwasanaethau eraill.
- Maent yn berthnasol i holl ymarferwyr a rheolwyr sy'n gweithio yng Nghymru, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi gan asiantaeth ddatganoledig neu heb ei datganoli, a ph'un a ydynt mewn gwaith gyda neu heb dâl.
- Mae Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'w lawrlwytho nawr drwy'r Apple App Store a Google Play Store.
- Gellir hefyd eu gweld yn y Gymraeg yn https://diogelu.cymru/cy/ ac yn Saesneg yn https://www.safeguarding.wales/en/

## 6.0. Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

6.1. Ar lefel gorfforaethol, dirprwyodd y Cabinet y cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu Plant ac Oedolion i'r Bwrdd Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion.

6.2. Prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn diogelu Plant ac Oedolion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

6.3. Bydd y Bwrdd yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn:

- Sicrhau Aelodau Arweiniol perthnasol bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn o ran materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion;
- Dod â gwaith rhyngadrannol ynghyd yn y maes diogelu a sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol;
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
- Datrys unrhyw rwystrau posibl a allai atal cael gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus ar waith;
- Adnabod unrhyw fylchau mewn polisïau a chanllawiau corfforaethol, a sicrhau bod unrhyw fylchau o'r fath yn cael sylw, gan weithio'n briodol gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol;
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i swyddogion ac aelodau;
- Derbyn ac ystyried gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau mewn perthynas â honiadau o gam-drin proffesiynol, a mabwysiadu cynlluniau gweithredu er mwyn ymateb petai'r angen yn codi;
- Derbyn a herio gwybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol ac am y cynnydd wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith a gomisiynwyd;
- Ystyried a deall goblygiadau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i argymhellion o fewn adolygiadau o'r fath;
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6.4. Mae gan y Bwrdd rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau fod pob Gwasanaeth yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu'r Cyngor. Mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod gan bob Gwasanaeth system rheoli perfformiad ar waith i ddangos eu bod yn ymgymryd â'u swyddogaethau mewn modd sy'n diogelu Plant ac Oedolion.

6.5. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod pob chwarter. Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Mae'r Bwrdd yn ddull allweddol o sicrhau bod y Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth ar draws y Cyngor. Mae hefyd yn ymdrin ag unrhyw fylchau yng ngweithdrefnau'r Cyngor ym maes diogelu ynghyd â chyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Corfforaethol ynglŷn â diweddaru neu ddiwygio Polisi'r Cyngor yn y maes hwn. Mae copi o gylch gorchwyl y Bwrdd yn Atodiad 3. Mae'r Bwrdd yn cael ei wasanaethu gan Gofal Cymdeithasol.

6.6. Mae'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn derbyn adroddiad blynyddol gan y Bwrdd.

6.7. Mae'r Bwrdd yn cyd-fynd â rôl y Bwrdd Diogelu Oedolion / Plant Rhanbarthol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau aml-asiantaeth cadarn ar waith i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl a bod gan bartneriaid allweddol systemau diogelu priodol ar waith. Rôl Bwrdd Diogelu Corfforaethol Conwy yw sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o ddiogelu ar draws yr ystod eang o wasanaethau y mae'r

Cyngor yn eu darparu a'u comisiynu. Nid yw'r trefniadau amlasiantaeth presennol eu hunain i blant ac oedolion yn gallu darparu digon o ddyfnder ar gyfer sicrwydd i fodloni anghenion trefniadau cymhleth, yn arbennig oherwydd disgwyliadau cynyddol y cyhoedd a disgwyliadau'r rheoleiddwyr.

## 7.0. Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

7.1. Bydd gan Bwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y Cyngor y rôl o graffu a herio gwaith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn flynyddol. Ystyrir bod hyn yn hollbwysig er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor feithrin profiad a dealltwriaeth yn y maes ac yn dod yn gwbl ymwybodol o ehangder a dyfnder gwaith y Bwrdd a'r trefniadau corfforaethol.

7.2. Cynllun Corfforaethol 2022-2027 y Cyngor: Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf ac yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu clir i ymateb i'r blaenoriaethau hyn. Caiff Cynllun Cyflawni Blynyddol ei lunio hefyd i alluogi monitro rheolaidd.

7.3. Un o flaenoriaethau'r Cynllun yw sicrhau bod "Pobl yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl". Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu a chytunwyd ar set o ddangosyddion lefel uchel hefyd. Bydd y trefniadau hyn yn cyd-fynd ag adroddiadau i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

## 8.0. Adrodd, Monitro ac Adolygu

8.1. Bydd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi a Chanllawiau Corfforaethol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Hefyd, ar ran y Cyngor yn gyffredinol, bydd y Bwrdd Diogelu yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel rhan o'r gofynion o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 ac adrannau 134-135 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

8.2. Bydd perfformiad hefyd yn cael ei fonitro trwy'r Cynllun Corfforaethol sy'n cynnwys mesurau a chamau gweithredu penodol mewn perthynas â Diogelu. Disgwylir bod mesurau yn esblygu dros amser er mwyn gallu casglu gweithgarwch diogelu yn well gyda mwy o ehangder; ar hyn o bryd y dangosyddion perfformiad yw:

| **Sut byddwn yn mesur llwyddiant:** | |
|---|---|
| M4.1 | % y staff newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. |

8.3. Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn derbyn adroddiad yn nodi'r dangosyddion perfformiad ym maes diogelu a chynnydd y rhaglen waith. Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru eisoes yn derbyn data craidd yn rheolaidd. Bydd gofyn bod cynllun gweithredu eglur ar gyfer unrhyw bryderon ynglŷn â thanberfformio/llithriadau er mwyn ymateb i'r pryderon. Bydd diogelu hefyd yn "drywydd ymholi" posibl wrth herio gwasanaethau.

8.4. Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu os yw'r ddeddfwriaeth yn newid neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o achosion neu honiadau.

8.5. Mae manylion pellach wedi eu cynnwys yn Atodiad 4 ynglŷn â'r dull a ddefnyddir gan y Cyngor i fesur effaith a monitro effeithiolrwydd.

## ATODIAD 1 – Adrodd am Weithdrefnau

Gallai amheuon o gamdriniaeth fod ar sail 'pryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Gall pryderon diogelu godi mewn sawl cyd-destun gwahanol, gan gynnwys pan maent eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Gellir a dylid rhannu pryderon gyda'r gwasanaethau cymdeithasol trwy wneud adroddiad diogelu yn defnyddio'r ffurflen atgyfeirio safonol sydd ar gael ar wefan Conwy (ar gael yn Adran 5.0 y Polisi, uchod).

Tra na fydd pryderon o reidrwydd yn ysgogi ymchwiliad, maent o gymorth wrth greu darlun, ynghyd â phryderon a ddaw o ffynonellau eraill, a all fod yn arwydd fod rhywun yn dioddef o niwed. Mewn achosion o gyhuddiad neu amheuaeth o gam-drin gan weithiwr proffesiynol neu weithiwr unigol, dylai'r camau gael eu harwain gan y gweithdrefnau yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru (Ebrill 2020) a gweithdrefnau Conwy ei hun ar gam-drin proffesiynol a rhannu pryderon.

**Rhoi gwybod**

Dylid rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y daw problem, amheuaeth neu bryder diogelu ynglŷn â phlentyn neu oedolyn i'r amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, dylai atgyfeiriadau gael eu gwneud i wasanaeth ar ddyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Dylai holl atgyfeiriadau dros y ffôn neu adroddiad wyneb yn wyneb gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith, yn ddelfrydol drwy ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio safonol. Dylai'r Swyddog Un Pwynt Mynediad/gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd sy'n derbyn yr adroddiad / atgyfeiriad dderbyn cymaint o'r wybodaeth ganlynol â phosibl gan yr atgyfeiriwr:

Natur y pryderon:

- Sut a pham y mae'r pryderon hyn wedi codi;
- Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni (neu oedran) y plentyn / oedolyn dan sylw;
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni / oedrannau aelodau'r teulu, ynghyd ag unrhyw enwau eraill y maent yn eu defnyddio neu a ddefnyddir i'w hadnabod;
- Enwau a pherthynas pawb â chyfrifoldeb rhianta / gwarchodwr neu ofalwr, ble bo'n hysbys, i gael eu cofnodi:
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni partner y rhiant;
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni unrhyw oedolion eraill sy'n byw yn y cartref;
- Enwau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu, gan gynnwys er enghraifft, enw ysgol y plentyn a meddyg teulu; unrhyw wybodaeth sydd gennych ar anghenion datblygiadol y plentyn / anghenion gofal yr oedolyn a gallu ei r/rhieni neu rai sy'n rhoi gofal i ymateb i'r anghenion hyn o fewn cyd-destun y teulu ac amgylchedd ehangach;

unrhyw wybodaeth sy’n effeithio ar ddiogelwch staff: Yn achos oedolion diamddiffyn mae angen ystyried capasiti a risgiau’r unigolyn dan sylw ynghyd ag amgylchedd diogel a chadarnhaol;

- Rhoi lles a diogelwch y plentyn neu’r oedolyn uwchlaw pob ystyriaeth arall;

**NI DDYLECH**

Gyffwrdd na chaniatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym nac iaith amhriodol na gwneud unrhyw sylwadau rhywiol awgrymog;

Anwybyddu cyhuddiadau a wnaed gan blentyn neu oedolyn; dylid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolyn i’r Gwasanaethau Cymdeithasol neu’r Heddlu.

Gwahodd na chaniatáu i blentyn neu oedolyn mewn risg ddod i’ch cartref ble byddant ar ben eu hunain gyda chi;

Mynd i ardaloedd o fewn adeiladau’r Cyngor sydd wedi eu neilltuo’n benodol ar gyfer y rhyw arall;

Defnyddio’r rhyngrwyd, dyfais electronig neu ffôn i gael mynediad i safleoedd delweddau cam-drin plant;

Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol sy’n ymwneud ag achosion unigol i unrhyw un oni bai ei fod drwy weithdrefnau adrodd cydnabyddedig.

Dylai gweithwyr unigol, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol fod yn ymwybodol na allant aros yn ddienw wrth wneud atgyfeiriad diogelu. Fodd bynnag, gall y cyhoedd aros yn ddienw, os ydynt yn dymuno.

**TASGAU**

Mae’n bosibl y gofynnir i’r gweithiwr neu weithiwr proffesiynol unigol sy’n cyflwyno’r adroddiad diogelu wneud rhai neu bob un o’r tasgau canlynol, a dylai fod yn barod ac yn fodlon i’w gwneud:

- Cyfrannu at drafodaeth Strategaeth neu gyfarfod Strategaeth
- Cynorthwyo gydag ymholiadau Diogelu Plant Adran 47 / ymholiadau Adran 126
- Darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer Cynhadledd Achos
- Mynychu’r Gynhadledd Achos Diogelu Plant/Oedolion
- Cyfrannu at y broses Asesu

Cyfrifoldeb y gweithiwr unigol a’r gweithwyr proffesiynol yw sicrhau bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif a’u dilyn drwodd. Mae pob gweithiwr a gweithiwr proffesiynol unigol yn atebol am ei rôl yn y broses ddiogelu, ac os bydd gweithiwr neu weithiwr proffesiynol unigol yn parhau’n bryderus dylent ailatgyfeirio a/neu ddod â’r mater at sylw uniongyrchol uwch-reolwr plant neu oedolion neu yn eu habsenoldeb nhw y sawl sy’n dirprwyo ar gyfer eu swyddogaeth â chyfrifoldeb diogelu. Ym mhob achos o’r fath, dylid hysbysu rheolwr llinell y gweithiwr neu weithiwr proffesiynol unigol ac/neu’r rheolwr diogelu penodedig.

## ATODIAD 2 - Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio Diogel

**COD YMDDYGIAD AC ARFERION GWEITHIO DIOGEL**

1. Mae'r cod ymddygiad hwn yn ddatganiad ac yn ddisgrifiad o safonau proffesiynol yr arferion sy'n ofynnol gan holl staff y Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau beunyddiol.

2. Mae'r cod ymddygiad yn adlewyrchu'r ymarfer presennol a disgwylir i weithwyr nodi'r safonau canlynol fel y rhai maent yn anelu i'w hefelychu'n ddyddiol.

3. Rhagwelir bod y cod ymddygiad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan staff y Cyngor ac o sut y bydd y cyflogwr yn cefnogi'r aelodau staff i wneud gwaith yn effeithiol ac mewn modd sy'n parchu anghenion unigolion.

4. Dylai pob aelod o staff fod yn esiampl dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu. Mae'r canllawiau canlynol yn manylu ar enghreifftiau o arfer da y mae'n rhaid eu defnyddio, ynghyd â chodau ymddygiad penodol (e.e. codau ymddygiad CBSC), a allai fod yn berthnasol i swyddogaethau, gweithgareddau, neu ddigwyddiadau penodol.

Dylech bob amser fod yn agored i'r cyhoedd i'ch craffu pan fyddwch yn gweithio gyda phlant ac oedolion.

Dylech ddilyn y broses ofynnol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau e.e. digwyddiad o bwysigrwydd iechyd a diogelwch;

Mae gan blant ac oedolion hawl i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch, urddas ac amgylchedd diogel a chadarnhaol;

Os bydd plentyn neu oedolyn yn cyrraedd gweithgaredd neu wasanaeth yn dangos arwyddion neu symptomau sy'n achosi pryder i chi, mae'n rhaid i chi weithredu'n briodol a dilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi.

**DYLECH**

Weithio yn unol â'r polisi Diogelu Corfforaethol hwn. Os bydd gennych amheuaeth, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Penodedig yn eich Adran.

Gweithio mewn amgylchedd agored (e.e. dylech osgoi sefyllfaoedd preifat neu rai na ellir eu harsylwi ac annog amgylchedd agored e.e. dim cyfrinachau);

Trin pob plentyn ac oedolyn yn deg gyda pharch ac urddas;

Rhoi lles bob plentyn ac oedolyn yn gyntaf;

Sicrhau bod pellter diogel a phriodol gyda chyfranogwyr (e.e. nid yw'n briodol cael perthynas agos gyda phlentyn neu oedolyn);

Creu perthynas gyfartal yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n rhoi grym i'r plant ac oedolion rannu yn y broses o wneud penderfyniadau;

Derbyn y wybodaeth fwyaf gyfredol am faterion hyfforddiant a diogelu;

Bod yn esiampl ardderchog – mae hyn yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed alcohol na rhegi yng nghwmni plant ac oedolion;

Sicrhau bod offer ffotograffiaeth neu ffilmio yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bod rhiant neu ofalwr y cyfranogwyr wedi rhoi eu caniatâd;

Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw anaf, ynghyd â chofnod o unrhyw driniaeth a roddwyd yn unol â pholisi'r Cyngor;

**NI DDYLECH**

Gyffwrdd na chaniatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym nac iaith amhriodol na gwneud unrhyw sylwadau rhywiol awgrymog;

Gwneud i blentyn grio fel modd o'i r/rheoli, na defnyddio unrhyw dechnegau rheoli ymddygiad heb ei awdurdodi gan bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor;

Anwybyddu cyhuddiadau a wnaed gan blentyn neu oedolyn. Dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolyn.

Ymgymryd â thasgau o natur bersonol i blant neu oedolion y gallent eu gwneud dros eu hunain;

Gwahodd na chaniatáu i blentyn neu oedolyn mewn risg ddod i'ch cartref ble byddant ar ben eu hunain gyda chi;

Mynd i ardaloedd wedi eu neilltuo'n benodol i'r rhyw arall;

Defnyddio'r rhyngrwyd, dyfais electronig neu ffôn i gael mynediad i safleoedd delweddau cam-drin plant;

5. Bydd unrhyw weithiwr sy'n torri unrhyw amod o'r cod ymddygiad uchod yn wynebu ymchwiliad a gallai wynebu camau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo a'r posibilrwydd o ymchwiliad troseddol os oes yna dystiolaeth o weithgaredd anghyfreithlon.

6. Bydd gwasanaethau gwirfoddol sy'n torri'r cod ymddygiad yn cael eu gwahardd ar unwaith. Os bydd yna dystiolaeth o weithgaredd anghyfreithlon, bydd enw'r gwirfoddolwr yn dod i sylw'r awdurdodau perthnasol a gallai ef/hi wynebu ymchwiliad troseddol.

ATODIAD 3 - Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Corfforaethol

**CYLCH GORCHWYL BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Adran 28 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

1.2. Mae'r canlynol yn adlewyrchu 'Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol' [cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - Mehefin 2009]. Yn ogystal â Rhan 8 - Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol a diwahân dros ddiogelu plant.

1.3. Nid yw'r canlynol yn newid Cyfansoddiad CBSC. Y bwriad yw ail-orfodi trefniadau adrodd presennol.

## 2. CYLCH GORCHWYL BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL CBSC

2.1. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelwch plant ac oedolion o fewn CBSC.

2.2. Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr.

2.3. Bydd y Bwrdd yn gweithredu ar lefel Strategol er mwyn:

- sicrhau Aelodau Arweiniol perthnasol bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn o ran materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion;
- Dod â gwaith rhyngadrannol ynghyd yn y maes diogelu a sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol;
- Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor;
- Datrys unrhyw rwystrau posibl a allai atal cael gweithdrefnau effeithiol a llwyddiannus ar waith;
- Nodi unrhyw fylchau mewn polisïau a chanllawiau corfforaethol a sicrhau eu bod yn derbyn sylw, gan weithio'n briodol gyda Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru;
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i swyddogion ac aelodau yn unol â Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol;
- Derbyn ac ystyried gwybodaeth am dueddiadau mewn perthynas â chyhuddiadau o bobl mewn swydd y gellir ymddiried ynddynt a mabwysiadu cynlluniau gweithredu i ymateb os bydd angen;

- Derbyn a herio gwybodaeth am berfformiad diogelu corfforaethol ac am y cynnydd wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith a gomisiynwyd;
- Ystyried a deall goblygiadau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol i argymhellion o fewn adolygiadau o'r fath;
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**3. CADEIRIO**

Prif Swyddog Gweithredol

**4. AMLDER Y CYFARFODYDD**

Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter

**5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.1. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn atebol i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

5.2. Rheolir Busnes [h.y. creu rhaglen waith, rhaglenni cyfarfodydd, ysgrifenyddiaeth, pwynt cyfathrebu canolog, trefnu derbyn cyngor proffesiynol ychwanegol os oes angen] trwy swyddogaeth Pennaeth y Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu.

**6. AELODAETH**

Prif Swyddog Gweithredol
Arweinydd y Cyngor
Aelod Cabinet Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu
Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig
Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau
Aelod Cabinet Addysg
Aelod Cabinet Diwylliant a Hamdden
Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Pennaeth Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig
Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol
Economi a Diwylliant
Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol
Pennaeth Archwilio a Chaffael
Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol
Rheolwr Gwasanaeth Diogelu

## ATODIAD 4 – Mesur Effaith a Monitro

Er mwyn sicrhau bod cydymffurfiad llawn â'r gweithdrefnau sydd wedi eu cynnwys yn y polisi diogelu corfforaeth ar draws y Cyngor, a'u bod yn sicrhau effaith gadarnhaol ar fywydau plant ac oedolion o'u gweithredu, mae'n hanfodol bwysig bod y camau canlynol yn digwydd:

- Mae'n hanfodol bod y polisi'n cael ei gyfleu'n effeithiol i bob aelod o staff, Cynghorwyr, gwirfoddolwyr, plant, rhieni, gofalwyr ac unrhyw un arall sy'n cael ei effeithio;
- Mae gan Reolwyr Diogelu Dynodedig yn yr Adrannau gyfrifoldeb i sicrhau bod eu holl staff yn gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau atodol;
- Mae gan bob aelod o staff, Cynghorwyr a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb unigol i fod yn eiriol dros y polisi ac i'w hyrwyddo i sefydliadau neu bartneriaid, ac i sicrhau bod gwerthoedd ac egwyddorion y Cyngor yn y maes diogelu yn cael eu cyfleu'n glir i blant, eu rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd;
- Sicrhau bod pob Adran yn cynnwys Diogelu o fewn eu Hadolygiad Perfformiad Gwasanaeth unigol;
- Sicrhau bod pob adran yn amlygu fod diogelu yn brif flaenoriaeth yn eu cynlluniau busnes, ac yn sicrhau bod pob gweithgaredd yn rhoi ystyriaeth i faterion diogelu fel mater o drefn;
- Sicrhau bod pob adran yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r weithdrefn monitro perfformiad corfforaethol mewn perthynas â diogelu, hyfforddiant a recriwtio mwy diogel;
- Sicrhau trwy gynnal digwyddiadau cyfranogi ac ymgysylltu fel yr Arolwg Dinasyddion Blynyddol; fod plant ac oedolion yn teimlo'n ddiogel ymhob agwedd o'u bywydau a bod gweithgareddau'r Cyngor yn y maes diogelu'n cyfrannu at eu hymdeimlad o fod yn ddiogel;
- Sicrhau bod crynodeb o'r hunanasesiad diogelu blynyddol a gynhelir gan yr ysgol yn cael ei ddadansoddi gan yr arweinydd Diogelu Addysg ac adrodd ar y canlyniad i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.
- Sicrhau bod y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yn cael eu dilyn ac ar gael ar bob lefel.
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a fydd yn darparu gwybodaeth am unrhyw weithgaredd diogelu a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu;
- Sicrhau bod unrhyw wasanaeth a gomisiynir gan neu ar ran y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau o ran diogelu sy'n cael eu hamlinellu yn y cytundeb.

ATODIAD 5 - Dogfennaeth / Deddfwriaethau a Chanllawiau Perthnasol

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Ebrill 2020)
Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004
Deddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Galluedd Meddyliol 2005
Mwy Na Geiriau (2016)
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
Cyfrol 5 Cod Ymarfer – Mynd i'r Afael ag Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl
Cyfrol 6 Cod Ymarfer – Mynd i'r Afael ag Achosion Unigol i Ddiogelu Oedolion mewn Perygl
Cyfrol 7 Cod Ymarfer – Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
Deddf Cam-drin Domestig 2021
Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl